Croesgoch

2008

Cynllun Gweithredu

Rhan-ariennir prosiect 'Dylunio ein Dyfodol' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
drwy gyfrwng Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

PLANED

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

CarnegieUK TRUST
CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

2008
CYNLLUN GWEITHREDU CROESGOCH

Paratowyd mewn cydweithrediad â

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu

TABL CYNNWYS

Cynnwys	Tud
Cefndir i'r Cynllun Gweithredu	1
Ardal y Cynllun Gweithredu	1
Hanes y Gymuned	1
Rhywbeth Arbennig	3
Cyflawniadau Cynllun Gweithredu Croesgoch 2005	3
Cynigion y Cynllun Gweithredu:	4
1. Adnoddau Cymunedol	4
2. Gweithgareddau Cymunedol	7
3. Cyfathrebiadau	9
4. Yr Amgylchedd, Gan Gynnwys Hawliau Tramwy Ynni Ac Ailgylchu	10
5. Treftadaeth	12
6. Tai	15
7. Trafnidiaeth, Ffyrdd a Thraffig	16
8. Gwaredu Gwastraff ac Ail-gylchu	18
Gweithredu / Grwpiau Gweithredu	19

Cytunwyd y Cynllun Gweithredu hwn mewn cyfarfod cyhoeddus ar 21 Hydref 2008, ar ôl dosbarthu'r cynllun gweithredu drafft i bob cartref yn y gymuned.

Gyda diolch i bawb a ddarparodd ffotograffau ar gyfer y Cynllun Gweithredu hwn.

Cefndir I'r Cynllun Gweithredu

Yn 2005 lluniwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Croesgoch o ganlyniad dau weithdy creu gweledigaeth. Gwahoddwyd pobl a chynrychiolwyr o bob cwr o'r gymuned i gymryd rhan yn y paratoadau ar gyfer mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun.

Yn 2008, mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Gymunedol Croesgoch, cytunwyd y byddai gweithdy yn cael ei drefnu ar gyfer y gymuned. Nod y gweithdy oedd diweddaru ac ychwanegu cyfleoedd newydd i gynllun gweithredu 2005 ac edrych ar brosiectau a fyddai'n cyfrannu at gynaladwyedd y gymuned yn y tymor hir.

Ardal Y Cynllun Gweithredu

Lleolir Croesgoch ryw 5 milltir i'r gogledd ddwyrain o Dyddewi ar gyffordd yr A487 Tyddewi i Abergwaun a'r B4330 Llanrhian i Hwlffordd. Gorwedda'r pentref, sydd â phoblogaeth o ryw 155, o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanrhian.

Hanes Y Gymuned

Lleolir pentref Croesgoch ar groesffordd yr A487 rhwng Abergwaun a Tyddewi. Mae tua 9 milltir o Abergwaun a 6 o Dyddewi. Ar Fap Degwm 1842 dim ond ryw dri bwthyn gydag adeilad wedi ei neilltuo'n Gapel sydd i'w gweld. Yn yr un modd mae cyfrifiad 1841 yn dangos 3 bwthyn yn unig.

Yr olion archeolegol hynaf yn y pentref yw bedd cist gyda

charbon-ddyddiad o tua 500 OC a ddarganfuwyd yn ystod gwaith adeiladu. Dros y blynyddoedd fe dyfodd y pentref, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu ar ffyrdd Llanrhian, Abereiddi a Threfeigan.

Mae gan y pentref amrywiaeth o gyfleusterau bellach. Mae yno ysgol gynradd ddwyieithog sy'n ymwneud â nifer o weithgareddau diwylliannol. Mae'r capel yn parhau i gynnal gwasanaethau bob pythefnos. Mae yna ddwy oriel yng ngofal artistiaid adnabyddus. Mae yna dafarn fodern yn darparu bwyd da a man cyfarfod. Mae'r Ysgol Feithrin yn cwrdd yn festri'r Capel. Mae yna garej i gynnal cerbydau a siop fferm fawr. Mae'r swyddfa bost wedi cau dros dro. Mae yna saer, gweithiwr metel a threfnwr angladdau yn y pentref. Cyflogir nifer o drigolion y pentref yma ac mae llawer yn teithio'n bellach i weithio tra bod eraill yn gweithio yn niwydiannau gwyliau a gwasanaethau yn yr ardal. Mae cwmni adeiladu wedi ei leoli yn y pentref ac mae yntau hefyd yn cyflogi nifer o bobl leol.

Rhywbeth Arbennig

Yn ystod y gweithdai fe wnaeth y rheini o drigolion Croesgoch a gymerodd rhan yn y gweithdy nodi'r rhinweddau arbennig sydd gan Groesgoch.

Mae'r gymuned yn 'groesawgar' am mae gan drigolion falchder yn eu treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol. Mae harddwch naturiol yr ardal yn ategu at gefn gwlad a'r agosrwydd at yr arfordir y mae pobl yn ei fwynhau gymaint, tra bod yr adnoddau sydd gan Croesgoch i'w gynnig yn helpu i ddarparu amgylchedd diogel a phleserus i fyw.

Cyflawniadau Cynllun Gweithredu Croesgoch 2005

- Ffurfiwyd grŵp treftadaeth Cymdeithas Cymuned Croesgoch
- Ymchwiliwyd i hanes Croesgoch
- Trefnwyd nifer o arddangosfeydd llwyddiannus yn dangos hen luniau o fewn ac o gwmpas yr ardal.
- Cynlluniwyd a gosodwyd bwrdd gwybodaeth yn disgrifio hanes yr ardal.
- Lluniwyd taflen bentref
- Cwblhawyd cyfeiriadur busnes ar gyfer yr ardal
- Fe weithiodd aelodau'r gymuned gyda'i gilydd i gwblhau'r prosiect 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol'
- Dulliau gostegu traffig ar y groesffordd
- Sefydlwyd cyfleuster ailgylchu plastig dan ofal grŵp lleol a chyflwynwyd cynllun bagiau oren.

Cynigion Y Cynllun Gweithredu

Mae cynhyrchu Cynllun Gweithredu yn rhoi i Groesgoch rhaglen gytûn ar gyfer datblygu cymuned gynaliadwy yn nhermau gwelliannau i'w rhwydwaith mewnol ac i fywyd cymdeithasol ei thrigolion, tra'n ystyried ei effaith ar yr amgylchedd a'r dyfodol.

1. Adnoddau Cymunedol

Sylwadau

Prif adnodd Croesgoch yw Ysgol Croesgoch, yr ysgol gynradd leol sy'n cynnwys cae pêl-droed ar y safle. Mae tua 150 o blant yn mynychu'r ysgol a'r Cylch Meithrin. Ystyrir yr ysgol yn adnodd cymunedol pwysig ac mae yna botensial i ehangu ei adnoddau ar gyfer defnydd cymunedol.

Mae yna gapel Bedyddwyr yn y pentref ac eglwys ym mhentref cyfagos Llanrhian ac eglwys yn Llanhywel. Defnyddir festri'r capel yn ddyddiol gan yr Ysgol Feithrin. Defnyddir Neuadd yr Eglwys yn Llanrhian bob nos Iau gan y Clwb Ieuenctid ac mae hefyd yn lleoliad y Clwb Cinio sy'n cwrdd unwaith y mis.

Ar wahân i ardal wyrdd fychan, a mainc ar y gyffordd y B4330 nid oes llain pentref neu sgwâr i bobl gyfarfod, yn enwedig aelodau hŷn y gymuned; does yna ddim neuadd gymunedol chwaith. Mae'n anodd felly i groesawu aelodau newydd i'r gymuned.

Mae gwasanaeth 'Pryd ar Glud' yn galw yng Nghroesgoch bob dydd Mawrth a dydd Iau. Mae Cymdeithas Gofal Penrhyn Tyddewi i'r Henoed a'r Anabl yn trefnu bws bob dydd Iau a dydd Gwener i gludo'r henoed a'r anabl o'r penrhyn, gan gynnwys Croesgoch, i Ganolfan y Groes Goch yn Nhyddewi am bryd o fwyd. Mae bws mini yn casglu trigolion lleol a'u cludo i Ganolfan Ddydd Wintern.

Nid oes yna fan diogel i blant chwarae; yn wir, prin iawn yw'r adnoddau a'r gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn y pentref. Nid oes yna ddarpariaeth gofal plant ar ôl ysgol nac yn y bore yn y pentref i rieni. Yn 2004 fe wnaeth arolwg ar gyfer rhieni disgyblion Ysgol Croesgoch ganfod yr angen am ofal ar ôl ysgol yn ogystal â chyfleuster clwb brecwast i alluogi'r rheini i ymgymryd â chyflogaeth.
Yr unig fynediad i'r toiledau cyhoeddus ar gyffordd yr A487 â'r B4330 tua'r gogledd, yw drwy ddringo rhes o stepiau.

Cynigion
Ymchwilio i'r dulliau gorau i gynyddu defnydd o'r Ysgol fel adnodd cymunedol. Trafod gyda rheolwyr yr ysgol (Cyngor Sir Penfro a'r Llywodraethwyr) ynghylch y posibilrwydd o:

1. Ehangu'r defnydd a wneir o adnoddau'r ysgol gan y gymuned ar hyn o bryd, gan gynnwys:
    - Dosbarthiadau addysg i oedolion, o bosib o Brifysgol Aberystwyth neu Gyngor Sir Penfro a gyda chymorth gan 'Menter Iaith', datblygu cyrsiau iaith megis Cymraeg i oedolion, Cymraeg creadigol, llenyddiaeth Gymraeg.
    - Defnydd o'r neuadd ar gyfer ioga, cadw'n heini, gymnasteg, ayyb.
    - Cynnal Clwb Cinio (wedi ysgol!) yn debyg i'r un yn Llanrhian.
    - Cysylltu â Chlwb Rygbi Tyddewi, yr eglwys, capel ac ysgol feithrin i weld sut all yr ysgol ategu at y gweithgareddau y maent yn cynnig.
    - Cynnig yr ysgol fel lleoliad i grwpiau sydd eisoes yn cwrdd e.e. grwpiau Cymraeg sgyrsiol.
    - Defnydd cymunedol o'r cae chwarae.
    - Rhoi rhan o gae Tregynon, sydd gyferbyn â'r ysgol ac yn berchen i CSP, i'r gymuned.
    - Darparu gofal plant ar ôl ysgol ac yn y bore yn Ysgol Croesgoch.

2. Cynllunio arolwg i asesu lefel y diddordeb o ran defnyddio'r ysgol fel adeilad cymunedol.

    - Nodi safle ar gyfer ardal chwarae i blant a phobl ifanc a / neu barc sglefrio.
    - Nodi safle am gae chwarae os nad yw cae'r ysgol ar gael.
    - Nodi safle ar gyfer neuadd gymunedol – os nad yw rhannu'r ysgol yn ymarferol.

- Ceisio gwybodaeth gan sefydliadau sy'n darparu cyngor a chyllid gan gynnwys CSP, PAVS a PLANED ar gyfer datblygu cynigion y Cynllun Gweithredu.
- Ymchwilio'r galw am y posibilrwydd o sefydlu darpariaeth gofal plant ar ôl ysgol ac yn y bore rhywle arall yn y pentref os nad yw'n bosib gwneud hynny yn yr ysgol.

3. Gwella mynediad i'r toiledau cyhoeddus.

2. Gweithgareddau Cymunedol

Sylwadau
Mae pobl leol, yr ifanc a'r henoed, yn creu cadernid yn y gymuned. Maent yn gymdogion da ac yn gyfeillgar. Mae'r gymuned yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae Croesgoch yn ardal ddiogel sy'n rhydd o droseddau.

Er bod balchder lleol yn natur ddwyieithog yr ardal ac mae dosbarthiadau ar gael i alluogi rhieni i gadw i fyny gydag addysg eu plant, mae yna deimlad fod y defnydd o'r iaith Gymraeg yn dirywio. Mae yna Ŵyl Miri Medi a gynhelir yn flynyddol sy'n canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg ac yn cynnig gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ŵyl wedi ennill gwobr am hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant yn y gymuned.

Mae Ysgol Feithrin yn cyfarfod yn festri'r capel yng Nghroesgoch. Cynhelir gyrfa chwist unwaith y mis yn Neuadd Eglwys Llanrhian. Mae yna nifer o grwpiau ieuenctid lleol, Aelwyd yr Urdd, Adran, Clwb Tenis Bwrdd, Campau'r Ddraig, CFfl (Breudaeth) a chlwb ieuenctid yr eglwys (Llanrhian).

Mae'r Artramont Arms, y dafarn leol, gyda'i thîm dartiau a nosweithiau cwis misol, yn ganolfan cymdeithasol. Mae *Dysgu Sir Benfro* hefyd yn cynnal dosbarthiadau (cyfrifiaduron) yn y dafarn.

Mae pobl yn cymryd rhan mewn nifer o glybiau a gweithgareddau gan gynnwys Gŵyl Miri Medi (sydd yn cael ei chynnal ym mis Medi). Mae yna amrywiaeth o glybiau ar gael i ddisgyblion ysgol Croesgoch drwy gydol y flwyddyn.

Mae Pwyllgor Sioe Ardd Croesgoch yn trefnu'r sioe flynyddol sy'n cael ei chynnal yn yr ysgol. Eleni fydd y 63ain mlynedd!. Ymhlith y digwyddiadau eraill mae canu carolau, y ffair eglwys yn Llanrhian ym mis Awst a Ffair Mefus Eglwys Llanhywel a ffair haf yr ysgol ym mis Gorffennaf, a daw gwragedd ynghyd i adrodd barddoniaeth. Bob mis Mehefin cynhelir rhediad tractorau o dras yng Nghroesgoch sy'n denu tipyn o ddiddordeb lleol. Mae yna Gymanfa Ganu a Hel Calennig adeg Dydd Calan.

Mae rhai yn teithio i leoliadau cyfagos i hamddena, er enghraifft y clwb ieuenctid yn Llanrhian a chlwb criced Llanrhian yn Llandigige, Merched y Wawr a bowlio mat byr yn Nhyddewi, bowlio awyr agored yng Ngwdig neu Dre-fin ac awyrennau radio-reoledig yn Hwlffordd. Mae dosbarthiadau addysg bellach yn cael eu mynychu yn Abergwaun a Thyddewi ac mae aelodau *rygbi mini* yn teithio i Dyddewi ar gyfer eu sesiynau ymarfer. Mae nifer o bentrefwyr yn rhan o'r cynulleidfaoedd yn eglwysi cyfagos Llanrhian a Llanhywel. Mae yna Chwaeroliaeth yn Rehoboth a Berea. Mae eraill yn cerdded ar hyd llwybrau lleol neu'n seiclo i hamddena. Arferai fod cynllun Gwylio Cartref ar gyfer yr henoed ond nid yw'n bodoli mwyach.

Fe wnaeth yr Archwiliad Sgiliau ac Adnoddau, a ffurfiodd rhan o Weithdy 2, ddangos fod amrywiaeth o ddoniau ymarferol, artistig a threfniadol yn y gymuned a hefyd y byddai hyfforddiant ychwanegol i lenwi'r bylchau yn fuddiol e.e. sgiliau cyfathrebu, gwybodaeth am hanes lleol, trefnu digwyddiadau, amserlenni, agendâu a chyfarfodydd.

Cynigion

Cefnogi Fforwm Gymuned Croesgoch i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn cefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu a ffocysu egni a sgiliau'r trigolion i gynnal a datblygu'r gymuned.

- Y Fforwm i ddylunio holiaduron i bennu lefel y diddordeb am:
  - Weithgareddau iachus gan gynnwys ioga, cadw'n heini, aerobeg a grŵp campfa.
  - Clwb bowlio lawnt gyda phafiliwn/tŷ clwb.
  - Clwb seiclo.
  - Clwb/grŵp cerdded.
  - Canfod lleoliad addas ar gyfer traeth noethlymunwyr.
  - Dosbarth/grŵp rhoi'r gorau i smygu.
  - Teithiau cymunedol i leoedd o ddiddordeb
  - Cyflwyno sioe gŵn a/neu rasio ffuredau (yn ôl diddordeb)
- Nodi safle addas e.e. cae chwarae'r ysgol ac adfywio'r carnifal a mabolgampau fel rhan o Ŵyl Miri Medi.
- Cyflwyno sioe gŵn a/neu rasio ffwlbart (yn adlewyrchu diddordebau presennol).
- Canolbwyntio egni'r grwpiau ieuenctid lleol sefydledig, gan gynnwys Aelwyd yr Urdd sydd bellach wedi ei ailsefydlu, i ddarparu gwell cyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghroesgoch.
- Trafod gyda Heddlu Dyfed Powys i gyflwyno cynllun gwarchod cymdogaeth ym mhentref Croesgoch.

3. Cyfathrebiadau

Sylwadau
Mae yna hysbysfwrdd cymunedol yn y swyddfa bost, y capel a garej y Square and Compasss. Mae bwrdd dehongli wedi ei osod ger y toiledau cyhoeddus. Arddangosir posteri yn yr Artramont Arms, yr Ysgol, yr Ysgol Feithrin ac yn Neuadd yr Eglwys Llanrhian. Mae band llydan ar gael. Y *County Echo* a'r *Western Telegraph* yw'r papurau lleol ynghyd â'r Llais Rhian.

Mae'r Swyddfa Bost wedi cau dros dro.

Cynigion
Ystyried canolbwyntio'r wybodaeth ar un hysbysfwrdd canolog a hysbysebu adnoddau a gwasanaethau presennol a newydd fel bod yr holl gymuned yn ymwybodol ohonynt.

- Darparu gwybodaeth i gefnogi'r Llien Gwyn
- Sefydlu grŵp cyfathrebu a pharatoi:
    - Tudalen we ar gyfer Croesgoch.
    - Arolwg/holiadur i bennu pa gyfleusterau/ gwasanaethau byddai pobl leol yn hoffi eu gweld yng Nghroesgoch.
- Ymwybyddiaeth gynyddol o sgiliau lleol a allai arwain at gymorth "mewn llaw" yn cael ei roi o fewn y gymuned mewn ffurf cyfnewidfa sgiliau e.e. rhannu ffafrau.
- Cyngor y Gymuned i ddarparu 'blwch cynigion'.

4. Yr Amgylchedd, Gan Gynnwys Hawliau Tramwy, Ynni Ac Ailgylchu

Sylwadau
Gorwedda Croesgoch mewn ardal o'r sir sy'n dawel a hyfryd. O'r pentref, ceir olygfeydd eang dros Fae Ceredigion.

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, sy'n cynnwys Ynys Dewi, yn gorwedd i'r gogledd o Groesgoch. Mae ffin y Parc yn dilyn rhwydwaith o ffyrdd bychain sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r arfordir.

Mae harddwch naturiol yr ardal yn cynnwys cloddiau sydd yn llawn blodau gwyllt. Mae'r llwybrau lleol yn uno â llwybr yr arfordir i ddarparu cyfleoedd i gerdded. Mae un cynllun Tir Gofal ger Tre-yarched wedi cynnwys creu llwybr newydd.

Mae'r aer yn glir ac yn iach a gellir gweld y sêr oherwydd bod cyn lleied o lygredd golau.

Mae gerddi cymunedol bychan wedi eu sefydlu ar dir yr ysgol.

Mae rhai trigolion yn cynnal arolygon ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar dir yng ngogledd-orllewin Sir Benfro ac ar gyfer RSPB Cymru.
Mae rhai ffermwyr â diddordeb mewn ffermio organig.

Mae yna bryder cyffredinol am yr amgylchedd a'r ffordd y mae dynoliaeth yn ei ddinistrio.

Mae'r cynllun bagiau oren, sef ailgylchu wrth ochr y ffordd wedi cyrraedd Croesgoch ac mae'r trigolion eu hunain hefyd wedi creu cynllun ailgylchu plastig a fydd yn parhau i dderbyn cefnogaeth ble'n bosib. Mae'r cynllun preifat hefyd wedi lledaenu i fannau cyfagos, ac wedi ei adleoli yn y Ganolfan Ailgylchu ar heol Tyddewi

Cynigion
Cefnogi datblygiad grŵp amgylcheddol, gan adeiladu ar y gwaith llwyddiannus a wnaed eisoes gan y gymuned; gwella ac ehangu ardaloedd plannu a phalmentydd i wneud Croesgoch yn fwy deniadol.

Mewn trafodaethau gyda pherchnogion tir lleol a'r awdurdod hawliau tramwy (CSP a APCASB)

- Codi safon y llwybrau presennol drwy
  - Wella camfeydd i bobl sydd yn llai abl, a chŵn
  - Argraffu taflenni yn dangos llwybrau
  - Gwella arwyddion ar giatiau / camfeydd ayyb.
- Agor llwybrau cerdded ychwanegol, yn enwedig cylchdeithiau e.e. y ffordd dramwy trwy Dregynon.
- Creu llwybrau seiclo ar briffordd yr A487.
- Plannu ychwanegol yn y pentref
- Cefnogi Cyngor y Gymuned i greu llwybr troed i 'Mesur y Dorth'.
- Gweithio gyda'r Cyngor Sir i wella trefniadau ail-gylchu a gwaredu gwastraff yn y pentref.
- Gwella mynediad i'r toiledau cyhoeddus.

5. Treftadaeth

Sylwadau

Mae nifer o domenni claddu hynafol yn yr ardal a safle hen felin wynt. Mae hen dollborth preifat dal i sefyll ac yn cael ei ddefnyddio bellach fel tŷ haf.

Mae Croesgoch yn gorwedd ar un o'r llwybrau pererindota i Dyddewi. Mae'r maen hir arbennig sydd wedi ei gerfio, Mesur y Dorth, yn nodi'r safle lle'r oedd pobl yn rhannu eu bara cyn cam olaf eu taith.

Credir fod enw'r pentref yn tarddu o'r frwydr a ddigwyddodd ger y pentref a arweiniodd at laddfa a'r afon o waed chwedlonol a ffurfiodd siâp croes- Croes-Goch.

Cafodd Capel y Bedyddwyr, sydd wedi ei leoli ger canol y pentref, ei adeiladu yn 1858 a chwaraeodd rhan allweddol ym mywyd y pentref. Mae'r eglwysi lleol yn cynnwys Llanrhian a Llanhywel.

Mae gan lawer o'r trigolion hynaf atgofion arbennig o sgiliau traddodiadol yr ardal sydd bellach wedi diflannu, felly mae DVD yn cynnwys yr hanes llafar ar fin cael ei lansio ym mis Chwefror 2009.

Mae'r iaith Gymraeg hefyd yn gryf yng Nghroesgoch. Mae'r iaith yn dystiolaeth o'i threftadaeth ac ysbryd cymunedol y pentref. Mae trigolion lleol yn teimlo fod yr iaith a'r ysbryd cymunedol wedi goroesi o ganlyniad i genedlaethau o deuluoedd yn byw, gweithio ac yn aros yn y pentref.

Nid oes unrhyw gyfleoedd i ail-gylchu papur, boteli na thiniau yng Nghroesgoch; mae unrhyw ail-gylchu yn cael ei wneud fel rhan o daith i Dyddewi – neu rhywle arall. Mae rhai pobl yn gwrteithio gwastraff neu'n cadw abwydfa.

Cynigion

Cefnogi'r grŵp treftadaeth lleol i:

- Barhau i ymchwilio i hanes Croesgoch.
- Cynhyrchu cardiau post Croesgoch i'w gwerthu yn lleol.
- Cofnodi hanes llafar ac atgofion lleol o bosib yn cynnwys plant yr ysgol.
- Datblygu cylchdaith treftadaeth yn dechrau a gorffen yn y pentref i annog mwy o bobl i ymweld â Chroesgoch.
- Creu llwybr Pererinion gan ddefnyddio llwybrau troed a llwybrau marchogaeth oddi ar y ffordd cyn belled â phosib, gan agor llwybrau newydd pan fo hynny'n ddichonadwy i annog ffyrdd o fyw iach a thwristiaeth.
- Trafod gyda CSP ynglŷn â chodi arwydd ar gyfer maen hir cerfiedig Mesur y Dorth.
- Creu llyfr yn cofnodi hanes ardal Croesgoch.
- Ailadeiladu'r Felin wynt er mwyn darparu safle i'r grŵp treftadaeth ac os ydyw'n ddichonadwy, gosod ôl troed

carbon y pentref drwy gyflenwi ynni lle'n bosib a hefyd darparu cyfleuster ar gyfer seryddiaeth ar y llawr uchaf.

6. Busnes A Gwasanaethau (Gan Gynnwys Twristiaeth)

Sylwadau

Y busnesau a'r gwasanaethau sydd yn, neu'n darparu ar gyfer, Croesgoch yw'r Artramont Arms yng nghanol y pentref a'r Square and Compass i'r dwyrain. Mae yna siop fechan arall ym Mhenparc rhwng Tre-fin a'r A487 a siop fwy o faint yn gysylltiedig â'r orsaf betrol ryw filltir i'r dwyrain.

Mae cyfleoedd cyflogi lleol wedi eu cyfyngu i Ysgol Croesgoch, meysydd carafannau, dwy oriel luniau, y swyddfa bost, sefydliadau gwely a brecwast, garejis trwsio ceir (gan gynnwys asio) siop fferm a threfnydd angladdau. Mae'r Artramont Arms yng Nghroesgoch a'r Square and Compass i'r dwyrain hefyd yn cynnig cyflogaeth. Yn ychwanegol mae'r diwydiant adeiladu yn gyflogwr lleol yn ogystal â physgota a ffermio.

Mae yna brinder cynnyrch lleol ar gael yn y siopau. Mae archfarchnadoedd mawr yn dosbarthu nwyddau a archebwyd ymlaen llawn, felly'n gostwng pŵer prynu lleol. Roedd pobl yn awyddus i edrych am ddatrysiadau lleol, annog cynhyrchu lleol, gan gynnwys bwyd a chynnyrch - darparu swyddi lleol, felly'n gostwng y milltiroedd cysylltiedig sydd yn rhaid teithio, a gwella cyfoeth lleol. Hoffai'r trigolion weld ymagwedd fwy cynaliadwy at fasnach a gostyngiad yn y defnydd pacio a ddefnyddir yn gyffredinol

Mae'r llyfrgell symudol yn galw ar ddydd Iau bob tair wythnos ac mae person sy'n trin gwallt yn ymweld â Chroesgoch. Mae gwerthwr llysiau yn galw bob dydd Iau. Mae yna siop fferm sy'n darparu llysiau ffres yn lleol.

Yn ystod y blynyddoedd gwelwyd dirywiad yn yr amrywiaeth o swyddi, gwasanaethau a gweithgareddau lleol ac ofnir y bydd y tuedd yn parhau. Un achos penodol sy'n achosi pryder yw cau'r swyddfa bost, mae'r oriau wedi gostwng dros y blynyddoedd ac nid yw bellach yn gweithredu. Mae'r siop fechan ger Penparc hefyd yn llai o atynfa oherwydd ei bellter o Groesgoch. Mae angen athroniaeth 'ei ddefnyddio neu'i golli'.

Nid yn unig oes yna brinder swyddi lleol, yn enwedig i'r ifanc, ond mae llawer o'r cyfleoedd presennol yn dymhorol. O ganlyniad teimlir fod diffyg swyddi sylweddol yn achosi ymfudiad.

Mae rhai busnesau teuluol newydd wedi eu sefydlu'n ddiweddar, gan gynnwys siop fferm, cwmni adeiladu, gwneuthurwr metel, hurio beiciau a gwely a brecwast i lysieuwyr. Mae rhai pobl leol yn hunangyflogedig ac yn rhedeg busnesau o'u cartrefi.

Cynigion
Hyrwyddo Croesgoch a'i wasanaethau drwy

- Hyrwyddo Croesgoch a'i wasanaethau drwy
  - Godi bwrdd wybodaeth sy'n cyfuno hanes a manylion am wasanaethau lleol a dangos teithiau cerdded lleol.
  - Cyhoeddi llawlyfr o fusnesau a gwasanaethau Croesgoch.
  - Printio map/llyfryn o deithiau lleol.
  - Dylunio a phrintio cardiau post.
  - Gwerthu cynnyrch lleol, gan gynnwys crancod a macrell lleol, tatws newydd a llysiau lleol yn y siop leol.
  - Marchnata hanes 'Afonydd Gwaed' i ddenu mwy o dwristiaid/ymwelwyr i'r ardal.

- Datblygu mwy o gyfleoedd busnes yng Nghroesgoch.

7. Tai

Sylwadau
Mae yna brinder tai fforddiadwy ac mae gormod o dai yn cael eu prynu fel tai haf neu gan bobl o du allan i'r ardal sydd symud i fyw yma, er bod y pentref yn estyn croeso i bawb. Mae'r tueddiadau yma yn effeithio ar natur y gymuned ac yn troi Croesgoch i mewn i bentref pobl hŷn. Mae'r newidiadau yma, yn ogystal â dirywiad yn y gwasanaethau a swyddi, yn debygol o arwain at ddirywiad yn ansawdd yr ysbryd cymunedol presennol am fod nifer o bobl ifanc yn gadael y pentref i chwilio am waith a thai fforddiadwy mewn mannau eraill.

Cynigion
- Fforwm Cymunedol Croesgoch i weithio gyda'r Cyngor Sir a Chyngor y Gymuned i ymgymryd ag astudiaeth gofynion lleol i bennu'r galw presennol am dai fforddiadwy i'w rhenti neu werthu.

8. Trafnidiaeth, Ffyrdd A Thraffig

Sylwadau
Mae yna deimlad cadarn bod teithio mewn ceir yn hanfodol i les yr ardal er bod yna oblygiadau amgylcheddol os ydynt yn cael eu defnyddio'n barhaol; byddai modd gwella hyn a dyfod yn fwy cyfeillgar tuag at yr amgylchedd. Byddai system integredig sy'n cynnwys y car yn cael ei ystyried yn werthfawr iawn yn yr ardal.

Mae gwasanaeth y 411 rhwng Abergwaun a Hwlffordd trwy Dyddewi yn mynd trwy Croesgoch rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn gyda'r gwasanaeth gyntaf am 7.30 a'r olaf am 18.25.

Mae'r bws cyntaf o Dyddewi yn galw am 9.02 a'r olaf am 18.40. Nid yw'r 411 yn galw ym Mhenygroes Villas.

Mae gwasanaeth bws y 342 sy'n cysylltu Tyddewi â Hwlffordd yn rhedeg trwy Croesgoch ar ddydd Mawrth a dydd Gwener am 9.50 ac yn dychwelyd am 14.50 gan adael Hwlffordd am 3.20. Mae trigolion lleol yn teimlo fod amlder y gwasanaeth bws yn annigonol.

Oherwydd bod ffordd yr A487 yn lefel ac yn syth mae traffig yn tueddu i fynd yn gynt na'r cyfyngder 40mya trwy'r pentref. Ymhellach i'r dwyrain, wedi'r datgyfyngi, mae yna fannau 50mya. Mae'r gymuned yn falch i nodi bod pyst traffig wedi eu gosod yn ddiweddar ac maen nhw eisoes yn effeithiol iawn.

Nid oes unai palmant parhaol drwy Croesgoch na phalmant rhwng Croesgoch â Mesur y Dorth. Nid yw'n ddiogel i gerdded na seiclo ar hyd yr A487 oherwydd nid yw ceir yn cadw at y terfyn cyflymder.

Bu'r prosiect llwybrau diogel i'r ysgol yn llwyddiannus iawn o ran gostwng tagfeydd traffig ger yr ysgol drwy ddarparu mynediad i gerddwyr o'r pentref i'r ysgol.
Mae dal i fod diffyg mannau parcio i geir o fewn ac o gwmpas canol y pentref.

Mae'r codiad cynyddol ym mhrisiau tanwydd ac yn nhocynnau bws yn cael effaith ar Groesgoch fel y mae mewn nifer o gymunedau gwledig eraill.

Cynigion

Dylid datblygu unrhyw gynigon sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, ffyrdd a thraffig mewn cydweithrediad â'r Cyngor Sir. Y Fforwm i drafod gyda CSP a' Chyngor y Gymuned:

- Cynyddu amlder gwasanaeth y 411 ac
- Addasu'r daith i gynnwys Penygroes Villas.
- Gweithredu bysus 'o fewn cyrraedd' i gynorthwyo'r rheini sydd â llai o symudedd.
- Cynyddu'r drafnidiaeth a ddarperir i ddisgyblion fel ffordd o leihau tagfeydd o amgylch yr ysgol a'r grŵp chwarae.
- Gwella'r gwasanaeth bws gyda'r nos.
- Aneffeithioldeb y ffordd newydd i Heol Abereiddi, yn enwedig ar gyfer cerbydau cymalog.
- Annog Cyngor y Gymuned a CSP i ystyried y perygl y mae cerbydau cymalog sy'n troi i mewn i Heol Abereidy yn peri i gerddwyr a phlant ysgol sy'n cerdded i'r ysgol yn ogystal â chludiant ysgol.

Cynyddu effeithiolrwydd y mesurau i ostegu traffig,

- Gosod cyfynger cyflymdra 30mya drwy Croesgoch.
- Codi arwyddion "Gyrrwch yn Ofalus".
- Arwyddion ychwanegol yn dangos "ysgol".
- Annog yr Awdurdod Traffyrdd i adeiladu palmant/llwybr seiclo rhwng Croesgoch â Mesur y Dorth i uno â'r palmant ym Mhenygroes Villas.
- Creu llwybrau seiclo yn yr ardal.
- Sefydlu cynllun rhannu ceir.
- Cynyddu'r ddarpariaeth parcio yn ardal yr Atramont Arms, y Swyddfa Bost a'r oriel a ger yr ysgol/grŵp chwarae.

- Gofyn i Bwyllgor Llwybrau Diogel i'r Ysgol i barhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor Sir i adolygu safle'r llwybrau cerdded yn Nghroesgoch.
- Unrhyw waith i'r palmentydd i fod o safon a fyddai'n gwella golwg y pentref.
- Gosod rheiliau ar y cornel ger yr Atramont Arms er mwyn gwella diogelwch i blant yr ysgol uwchradd sy'n aros am y bws ysgol.

Gweithredu / Grwpiau Gweithredu

Er mwyn sicrhau fod y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu'n effeithiol awgrymir creu Grwpiau Gweithredu diddordebau arbennig o fewn y Fforwm awgrymedig. Bydd y Grwpiau, mewn cydweithrediad â'r darparwyr perthnasol, er enghraifft yr Awdurdod Hawliau Tramwy, yn canolbwyntio ar baratoi cynlluniau gweithredu manylach yn rhoi blaenoriaeth ac yn ffocysu ar y cynigion hynny sydd yn bosib i'w weithredu yn gynnar.

Gallai'r Grwpiau ganolbwyntio ar

- Gyfleusterau Cymunedol/Gweithgareddau Cymunedol
- Cyfathrebu
- Amgylchedd (gan gynnwys hawliau tramwy) a Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu
- Treftadaeth
- Busnes a Gwasanaethau (gan gynnwys twristiaeth)
- Tai/Trafnidiaeth, Ffyrdd a Thraffig

Mae'n bwysig bod y Grwpiau yn:

- Gweithio o fewn y Cynllun Gweithredu cytûn a'r Fforwm Cymunedol.
- Gweithio gyda grwpiau a sefydliadau presennol
- Cyfarfod yn rheolaidd
- Hysbysu'r gymuned ehangach ynglŷn â chynnydd.